

# Salm 139

Geiriau: Cass Meurig

Tôn: Kingsfold (tradd. tref. Cass Meurig)

iano

F B $\flat$  F C Dm Am B $\flat$

Pno.

F C Dm Gm Dm F C F Dm

Pno.

Am B $\flat$  F C Dm Gm Dm

Arglwydd, ti sydd wedi fy chwilio i,  
 A'm hadnabod, neb yn well;  
 Gwyddost pryd dw i'n codi neu eistedd lawr,  
 A beth sy'n fy meddwl o bell.  
 Wrth orffwys neu wrth gerdded cam,  
 Rwy't yn gwybod pob dim dwi'n wneud,  
 Rwy't ti'n gwybod, cyn imi agor ceg,  
 Bob gair dw i'n mynd i'w ddweud.

Tu ôl ac o fy mlaen i wyt,  
 Mae dy law di dros of fi,  
 Rhy ryfedd yw'r wybodaeth hon,  
 Mae tu hwnt i 'nghyrraedd i.  
 Ble alla i fynd oddi wrthyt ti?  
 I ble y gallaf ffoi?  
 Os i'r nefoedd fry neu i Annwn af,  
 Yno wyt heb fodd d'osgoi.

Os hedfan wnaf i gyda'r wawr,  
 Os trigaf dros y lli,  
 Bydd dy law di yno'n fy arwain draw,  
 A'th law dde yn fy nghynnal i.  
 Os dwedaf "Y tywyllwch du  
 A'r nos yn guddfan fydd",  
 Nid tywyll yw i ti, fy Nuw,  
 Yr un yw'r nos a'r dydd.

Ti greodd fi yng nghroth fy mam,  
 Ti'n fadnabod i i'r dim;  
 Ti drefnodd ddyddiau 'mywyd oll  
 Cyn i un fynd heibio'n chwim.  
 Mor ddwfn yw dy feddyliau i mi!  
 Amlach maent na thywod byd,  
 Ni alla'u cyfrif - ond hyn mi wn:  
 Byddi gyda mi o hyd.